**Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol (MPSRG)**

**2 Ebrill 2019**

**Yn Bresennol**

**John Hamer** (Llywodraeth Cymru), **Phil Coates** (Llywodraeth Cymru), **Rebecca Rees** (Llywodraeth Cymru), **Eluned Jones** (Llywodraeth Cymru), **Adrian Judd** (Cefas), **Rachel Mulholland** (Cefas), **Mark Russell** (Mineral Producers Association), **Peter Barham** (SUDG), **Emily Williams** (RSPB), **Kirsty Lindenbaum** (NRW), Lucie Skates (NRW), **Lee Murray** (NRW), **Lisa Phillips** (NRW), **Duncan Savage** (RYA), **Rachel McCall** (SUDG), **Alex Melling** (Wood Group), **Pete Davies** (Wood Group), **Neville Rookes** (WLGA), **Wendy Dodds** (MCS), **Jonathan Monk** (MHPA), **Mel Nicholls** (MMO), **Jillian Whyte** (JNCC), **David Jones** (Ynni Môr Cymru), **Stephen Jay** (Prifysgol Lerpwl), **Alice Collier** (Ystad y Goron).

1. Yn ystod cyfarfod diwethaf y Grŵp ym mis Rhagfyr a'r cyfarfod telegynadledda dilynol ym mis Ionawr, roedd yr Aelodau yn gefnogol o'r cynnydd a wnaed ar Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Diolchwyd i'r rhai oedd yn bresennol unwaith eto am eu gwaith caled yn symud y cynllun yn ei flaen.

2. Mae'r tîm cynllunio yn gweithio bellach gydag arweinwyr polisi'r DU a Llywodraeth Cymru (ar feysydd sydd heb eu datganoli) i gymeradwyo eu polisïau o fewn y cynllun. Pan fo'n amlwg bod polisïau Cymru/y DU yn cyd-daro, byddai hynny'n cael ei adlewyrchu yn y cynllun. Roedd pob maes yn symud yn ei flaen yn dda, gyda pholisi Ynni Carbon Isel yn datblygu drwy weithgor technegol.

3. Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r sawl oedd yn bresennol ar hynt y gweithgor technegol, a gaiff ei sefydlu i ystyried polisi morlynnoedd llanw a oedd yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Morol Cenedlaethol drafft. Lluniwyd papur opsiynau ac mae'r Gweinidog yn ei ystyried.

4. Roedd yr angen am Archwiliad Annibynnol yn cael ei adolygu'n barhaus ond teimlwyd y byddai angen mynd i'r afael â'r sylwadau a wnaed yn yr ymgynghoriad.

5. Gwnaeth NRW drafod datganiad yr Ardal Forol sy'n cael ei ddatblygu. Mae rhwymedigaeth ar NRW i lunio Datganiadau Ardal i helpu i gyflenwi'r Polisi Adnoddau Naturiol. Bydd gan yr amgylchedd morol ei ddatganiad ardal ei hunan. Mae pedwar cwestiwn allweddol yn llywio'r ffordd o feddwl am yr Ardal Forol a gofynnwyd i'r sawl a oedd yn bresennol i ddarparu adborth.

6. Roedd gwaith i weithredu'r cynllun hefyd yn symud yn ei flaen yn dda, gydag astudiaethau achos, canllawiau a Grŵp Penderfynwyr Cynllunio Morol yn parhau. Roedd y grŵp wedi cwrdd ddwywaith a byddai'r Canllawiau ar Gyflawni yn cael eu rhannu gydag aelodau'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn ystod yr wythnosau nesaf er mwyn canfod eu barn.

7. Cafodd y Grŵp yr wybodaeth ddiweddaraf ar waith monitro ac adrodd, y prosiect trawsffiniol, prosiect SMNR a diweddariadau o gyfarfodydd bord gron o fewn y sector.
   Ymholiadau at: Rebecca.Rees2@llyw.cymru